**Y Pwyllgor Diwylliant CC 02-03 p5**

**Dyddiad:** 22 Ionawr 2002

**Amser:** 9:00 – 12-30

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1

## ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS DDIWYLLIANT, CHWARAEON A'R IAITH GYMRAEG

-

## AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU ABERTAWE (AGGA)

1. Fel y gwyr yr Aelodau yn fwy na thebyg, rhoddodd Cronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) grant o £11.1 m ar gyfer prosiect i greu amgueddfa newydd yn Abertawe. Un o amodau'r grant oedd fod Cwmni AGGA, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (AOCC) a Dinas a Sir Abertawe yn ymrwymo i gytundeb ynghylch telerau safonol CDL sy'n gysylltiedig â thalu grant. O ganlyniad bydd AOCC yn gyd-atebol ac yn atebol yn unigol i ad-dalu grant i CDL os bydd yr amgueddfa newydd yn cau yn ystod oes grant CDL.

2. Gofynnodd AOCC am gadarnhad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y byddai cymorth ariannol yn cael ei ddarparu os byddai'n ofynnol iddi ad-dalu'r grant. Byddai darpariaeth o'r fath yn golygu atebolrwydd amodol, ac felly mae'n drafodiad hysbysadwy. O ganlyniad, cyflwynais Ddatganiad, yn unol â Rheol Sefydlog 19.13, ddydd Mercher 4 Rhagfyr yn rhoi hysbysiad o'm bwriad i awdurdodi trafodiad hysbysadwy. Ni ofynnodd unrhyw Aelod Cynulliad am drafodaeth ynghylch y mater ac o ganlyniad anfonais lythyr at Lywydd AOCC ar 19 Rhagfyr yn cynnig gair o gysur iddo.

## ADEILADU'R AMGUEDDFA NEWYDD

3. Rwy'n falch o ddweud bod gwaith wedi cychwyn ar y safle. Mae Rosemary Butler, sef Cadeirydd Bwrdd AGGA, wedi gwahodd Prif Weinidog Cymru i lansio'n swyddogol yr amgueddfa newydd ar 10 Chwefror.

## AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU (AOCC)

4. Bum mewn cyfarfod â Llywydd AOCC, Mr Paul Loveluck, a'r Cyfarwyddwr Dros Dro, Dr Eurwyn Wiliam, ar 17 Rhagfyr. Cawsom drafodaethau adeiladol ynghylch materion a oedd yn gysylltiedig â mynediad am ddim a'r Cyfnod Cynllunio Cyllideb. Roeddwn yn awyddus i glywed ynghylch cynnydd yr ymarfer ymgynghori ynghylch arddangos celf yn y dyfodol. Pwysleisiodd y Llywydd na fyddai'r adroddiad terfynol ar gael hyd y Gwanwyn. Trafodwyd yn ogystal faterion yn ymwneud â Llywodraethu sy'n deillio o'r Adolygiad Pum Mlynedd diweddar: bydd y drafodaeth ynghylch y materion hyn yn parhau a byddaf yn adrodd yn eu cylch yn fuan. Gofynnais i'r Llywydd wahodd aelodau o'r Grwp Ceidwadol ac o bleidiau eraill i ymweld â'r Oriel Genedlaethol ar safle Parc Cathays, yn unol â'm haddewid yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Rhagfyr 2002.

## GARDD FOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU (GFGC)

5. Rwyf i, ynghyd â Gweinidogion eraill, bellach wedi cael cyfle i ystyried yr adroddiad a gyflwynwyd gan KPMG. Mae KPMG wedi cyflwyno adroddiad manwl sy'n dadansoddi sefyllfa ariannol yr Ardd ac sy'n pennu opsiynau posibl o ran cyllid ar gyfer y dyfodol.

6. Cydnabyddwn fod GFGC yn brosiect arloesol pwysig a'i bod hefyd yn bwysig o ran economi twristiaeth lleol De Orllewin Cymru.

7. Rhagwelaf y bydd cyhoeddiad yn fuan.

**BBC CYMRU : "THE TREASURE HOUSE"**

8. Hysbysir yr Aelodau fod BBC2 Cymru yn dangos cyfres o chwe rhaglen dogfen o'r enw "The Treasure House" ynghylch Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Mae'r gyfres yn rhoi sylw manwl i gasgliadau'r Amgueddfa ac i waith allweddol gweithwyr cadwraeth a churadwyr o ran paratoi gwrthrychau i'w harddangos yn gyhoeddus.

9. Roedd y rhaglen gyntaf a ddarlledwyd ar 9 Ionawr yn rhoi sylw i gasgliadau celf arbennig yr Amgueddfa, gan ganolbwyntio ar ddarlun "La Parisienne" Renoir a elwir fel rheol y *Blue Lady*. Canolbwyntiodd yr ail raglen ar yr arch garreg Rufeinig yn Amgueddfa'r Lleng Rufeinig yng Nghaerllion. Gwelais yr arch garreg hon pan ymwelais â'r safle yn ddiweddar. Byddwn yn annog holl Aelodau'r Pwyllgor i wylio pedair rhaglen arall y gyfres ddiddorol iawn hon - fe'i darlledir am 19:30 ar nos Iau.

**Y CYNGOR GWASANAETHAU LLYFRGELL A HYSBYSRWYDD, CYMRU (CGLlH(C))**

10. Cefais gyfarfod â Chadeirydd CGLlH(C), Mrs Linda Tomos, ar 19

Rhagfyr.

Mae CGLlH(C) yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sy'n fy nghynghori ynghylch materion yn ymwneud â llyfrgelloedd a hysbysrwydd ac sy'n helpu i hyrwyddo arferion da yn y maes. Cawsom drafodaethau adeiladol ynghylch y gwaith ardderchog y mae CGLlH(C) yn ei wneud a'i gynllunio o dan ei chadeiryddiaeth ac ynghylch agwedd gadarnhaol y Cyngor o ran sefydlu CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd. Mae'r Cyngor wrthi'n paratoi i gyflwyno'r corff newydd drwy gyfrwng gwahanol brosiectau sylfaenol ym maes llyfrgelloedd a hysbysrwydd.

11. Bydd CyMAL yn cymryd lle CGLlH(C) pan y'i cyflwynir ym mis Ebrill 2004. Serch hynny, o ystyried natur amrywiol ac arloesol y prosiectau y mae'n gysylltiedig â hwy ar hyn o bryd a hyd 2004, efallai y byddai'r Pwyllgor yn hoffi ystyried gofyn i'r Cadeirydd roi cyflwyniad ynghylch gwaith y Cyngor.

**Y STRATEGAETH DIGWYDDIADAU CENEDLAETHOL**

12. Mae Stevens and Associates, sef cwmni ymgynghoriaeth yn Abertawe sy'n arbenigo yn y sectorau hamdden a thwristiaeth, wedi'u penodi i gynorthwyo â datblygu'r strategaeth. Mae llawer iawn o waith eisoes wedi'i wneud yn hyn o beth ac mae'r ymgynghorwyr yn gobeithio cynhyrchu adroddiad drafft i'w ystyried gan Grwp y Strategaeth Digwyddiadau, yr wyf i'n Gadeirydd arno, ar ddechrau mis Mawrth. Cynhyrchir yr adroddiad terfynol erbyn diwedd mis Mawrth.

**CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU: PENODI CADEIRYDD**

13. Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n cynnal ymarfer penodi ar gyfer swydd Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) o 1 Ebrill 2003. Hysbysebwyd y swydd hon yn y wasg ym mis Rhagfyr 2002 a'r dyddiad cau oedd 16

Ionawr. Disgwyliaf glywed y canlyniad cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**YMWELIAD Á CHYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU**

14. Ymwelais â Phrif Swyddfa a Swyddfa De Cymru y Cyngor, a leolir yn Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd, ar 14 Ionawr. Prif ddiben fy ymweliad oedd siarad â staff a gwrando ar eu sylwadau ynghylch gweithio yng Nghyngor y Celfyddydau gan fod yr ymarfer ailstrwythuro wedi'i gwblhau. Bu'n ymweliad buddiol iawn.

15. Trafodais waith yr Uned Strategol a'r Rhaglen Gyfalaf, y gwaith gyda phobl ifanc a'r gwaith ym maes amrywiaeth ddiwylliannol â staff CCC.

**LANSIO BIENNALE FENIS**

16. Roedd yn fraint gennyf fod yn bresennol yng nghyfarfod lansio presenoldeb Cymru yng Ngwyl Gelf Biennale Fenis ar 14eg Ionawr. Bydd artistiaid o Gymru yn cynrychioli'r genedl yng ngwyl fyd-enwog y Biennale am y tro cyntaf eleni. Cyhoeddodd CCC eu henwau ar 13 Ionawr. Dyma nhw: Paul Seawright, Cerith Wyn Evans, Simon Pope a Bethan Huws. Mae'r Arddangosfa Ryngwladol o Gelf a gynhaliwyd am y tro cyntaf yn 1895 wedi rhoi enwogrwydd i artistiaid fel John Constable a JMW Turner. Dyma hwb arall gwych i'r celfyddydau yng Nghymru.

17. Bydd Gwyl Biennale 2003 yn wyl bwysig gan y bydd yn dathlu 50 mlynedd ers yr Wyl gyntaf a bydd gan Gymru ei phafiliwn ei hun yn yr Wyl ar hen safle Bragdy Dreher lle bydd gwaith yr artistiaid arbennig yn cael ei arddangos.

18. Gellid dadlau mai Gwyl Biennale Fenis yw'r wyl fwyaf adnabyddus a'r wyl uchaf ei pharch ym maes y celfyddydau gweledol yn y byd. Bydd gwaith yr artistiaid o Gymru a arddangosir yn yr wyl fawreddog hon yn cynyddu proffil Cymru yn rhyngwladol ac yn tynnu sylw at ddoniau ein hartistiaid. Arwyddocaol yw'r ffaith y bydd Cymru yn bresennol yng Ngwyl y Biennale ychydig o fisoedd ar ôl lansio'r Artes Mundi, sef gwobr fwyaf y Byd ym maes y celfyddydau gwledol, yng Nghaerdydd. Bydd yn gyfle arall i ni hyrwyddo cyfoeth ac ansawdd ein rhwydwaith celfyddydau gweledol i weddill y byd. Gobeithir y bydd yr Wyl hefyd yn ategu llwyddiant presenoldeb Cymru yng Ngwyl Ryng-Geltaidd Lorient ym mis Awst y llynedd.

19. Rwy'n hapus iawn fod Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cyfraniad ariannol uniongyrchol i'r wyl, a bod Cyngor Celfyddydau Cymru, Masnach Cymru Rhyngwladol a Bwrdd Croeso Cymru yn cydweithio mewn partneriaeth i sicrhau presenoldeb Cymru.

**CYFARFOD Y CABINET CHWARAEON**

20. Bum yn bresennol yng nghyfarfod y Cabinet Chwaraeon yng Nghaeredin ar Ionawr yr 8fed.

Cadeirydd y cyfarfod oedd Tessa Jowell AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a rhoddodd gyfle i Weinidogion y DU drafod polisïau chwaraeon a materion amrywiol yn ymwneud â chwaraeon. Roedd Cadeiryddion Cynghorau Chwaraeon y DU yn bresennol yn ogystal.

21. Trafodwyd nifer o faterion gan gynnwys yr adroddiad diweddar a gynhyrchwyd ar y cyd gan yr Uned Strategaeth a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n ystyried sut gellir darparu chwaraeon yn fwy effeithlon a sut gellir targedu cyllid yn fwy effeithiol ar gyfer athletwyr a phobl sy'n cymryd rhan ar bob lefel.

**YMWELIAD Á MENTER IAITH RHONDDA CYNON TAF**

22. Ymwelais â Menter Iaith Rhondda Cynon Taf ar 11eg Ionawr i lansio gweithdy seminarau. Cefais gyfle i wybod mwy am waith y Fenter arbennig hon a chyfle hefyd i amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad a nodir yn *Iaith Pawb.*

**Y SWYDDFA COFNODION TROSEDDOL**

**23. Mae'n bleser gennyf nodi fod anawsterau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol o ran darparu ffurflenni Cymraeg wrthi'n cael eu datrys. Yn sgîl sylwadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, mae'r Swyddfa Gartref wedi gofyn i'r Swyddfa Cofnodion Troseddol sicrhau bod pob ffurflen sy'n gysylltiedig â'r broses ddatgelu ar gael yn y Gymraeg. Rhagwelwn y bydd y ffurflenni hyn ar gael o fewn yr wythnosau nesaf.**

**BWRDD LLYWODRAETHWYR Y BBC A S4C YN PENODI**

24. Penodwyd Carys Howell yn aelod o Fwrdd S4C. Bydd yn dechrau yn ei swydd ar y 1af Ionawr. Mae Ms Howell wedi gweithio i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ers 13 blynedd ar ôl gweithio fel cynhyrchydd a gohebydd i'r BBC ar y radio a'r teledu. Mae hi'n aelod o Fwrdd Croeso Cymru ac o Banel Ymgynghorol Amgueddfa Werin Cymru.

25. Penodwyd Yr Athro Merfyn Jones, Athro Hanes presennol Prifysgol Bangor ac Aelod y Comisiwn Safonau Darlledu yng Nghymru, yn Llywodraethwr y BBC yng Nghymru. Bydd yn dechrau yn ei swydd ar y 1af Ionawr. Bydd yn cymryd lle Roger Jones.

**CYFARFOD TWF (Y PROSIECT AR DROSGLWYDDO IAITH YN Y TEULU)**

26. Mynychais gyfarfod ar 19eg Rhagfyr â chynrychiolwyr o brosiect TWF a swyddogion o Fwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn derbyn y newyddion diweddaraf ynghylch y prosiect ac er mwyn clywed cynigion ynghylch cyllid academaidd ar gyfer cynnal ymchwil pellach mewn perthynas â throsglwyddo iaith.

**CYFARFOD CHWEMISOL BWRDD YR IAITH GYMRAEG**

27. Bum yn bresennol yng nghyfarfod chwe misol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 19eg Rhagfyr lle roedd Chadeirydd a Phrif Weithredwr y Bwrdd yn bresennol. Cefais gyfle i holi nifer o gwestiynau i'r Bwrdd gan gynnwys sut byddant yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni strategaeth Llywodraeth y Cynulliad fel y nodir yn *Iaith Pawb,* a beth yw eu cynlluniau o ran datblygu presenoldeb rhanbarthol.

**CYFARFOD CHWEMISOL CYNGOR LLYFRAU CYMRU**

28. Bum yn bresennol yng nghyfarfod chwemisol Cyngor Llyfrau Cymru a gynhaliwyd ar 19eg Rhagfyr lle roedd y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr yn bresennol. Cefais gyfle i holi nifer o gwestiynau i'r Cyngor a gofynnais am y newyddion diweddaraf ynghylch eu gwaith o roi argymhellion y Grwp Gorchwyl a Gorffen ynghylch Cyhoeddi ar waith ac am y newyddion diweddaraf ynghylch datblygu strategaeth farchnata .

**ADRODDIAD DRAFFT AR GOMISIWN BRENHINOL HENEBION CYMRU**

29. Amgaeaf nodyn i'r Aelodau oddi wrth Martin Rolph (Yr Is-Adran Cynllunio Ariannol), sydd wedi cynnal adolygiad pum mlynedd o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Ceir ei adroddiad drafft ynghlwm â'i nodyn ac mae'n gwahodd Aelodau i gyflwyno unrhyw sylwadau yn ei gylch cyn diwedd mis Chwefror. Bydd Martin yn ystyried unrhyw sylwadau a dderbynnir ac yna'n cyflwyno fersiwn terfynol ei adroddiad i'r Gweinidogion ei ystyried. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael cyfle i ymateb iddo bryd hynny.

30. Sylwer mai un o'i argymhellion allweddol yw y dylai'r Comisiwn barhau i fodoli yn ei ffurf bresennol i raddau helaeth ond y dylai'r rheolaeth dros ei swyddogaethau arferol a'i bodolaeth gael ei throsglwyddo i'r Cynulliad, sef y corff sy'n ei ariannu.

31. Nodir yn yr adolygiad mai uniad â Cadw yw'r opsiwn y mae ei fanteision a'i anfanteision yn haeddu cael eu hailystyried fwyaf yn yr hir dymor. Serch hynny, argymhellir na ddylid gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch trosglwyddo swyddogaethau i'r Comisiwn neu oddi wrtho hyd nes y clywir penderfyniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch holl faes amgylchedd hanesyddol Cymru. Bydd gofyn i Lywodraeth y Cynulliad ystyried adroddiad yr ymgynghorwyr sydd wrthi'n adolygu'r maes eang hwn. Mae Sue Essex, sydd wedi comisiynu'r ymgynghorwyr hynny, wedi nodi y bydd yn dosbarthu eu hadroddiad at ddiben ymgynghori â'r cyhoedd cyn y bydd yn ystyried y camau nesaf posibl.

**32. Wrth drafod adroddiad Martin Rolph ar yr adolygiad pum mlynedd o CADW, holodd Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth am gopïau o'r adroddiad drafft ar y Comisiwn, o ystyried ei berthnasedd o ran amgylchedd hanesyddol a diwylliant Cymru. Bydd Sue Essex yn gwneud hyn yn ei hadroddiad i'r pwyllgor hwnnw ar 5 Chwefror.**

**CAMAU I'R PWYLLGOR EU CYMRYD**

**33. Cyfeirir at baragraff 11. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried gwahodd Cadeirydd CGLlH(C) i roi cyflwyniad ynghylch gwaith y Cyngor.**

**34. Cyfeirir at baragraffau 29 - 32. Gofynnir i'r Pwyllgor gyflwyno sylwadau i Martin Rolph ynghylch yr adroddiad drafft ar *Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru* - erbyn diwedd mis Chwefror 2003.**

**Jenny Randerson AC**

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg**

Pwynt Cyswllt:- Paul Massey, ALSD, ffôn est. 5821

Atodiad

**YMWELIADAU'R GWEINIDOG O 19 RHAGFYR - 22 IONAWR**

**Ionawr**

Ymweliad a chinio â Dr Russell Rhys a

Chelfyddydau Ffwrwm Stryd Fawr, Caerllion

Ymweliad ag Amgueddfa'r Lleng Rufeinig

yng Nghaerllion Caerllion, Casnewydd

Y Cabinet
Chwaraeon
Stadiwm
Murrayfield,
Caeredin

Mynychu Seremoni
Wobrwyo Personoliaeth
Neuadd Dewi Sant,
Caerdydd

Chwaraeon y BBC 2002

Lansio Biennale Fenis
AOCC, Cathays

Ymweld â Phencadlys a
Swyddfa De Cymru
Stryd yr Amgueddfa,

CCC Caerdydd

Lansio 'Oriel Davies' Y
Drenewydd, Powys

Siarad yn Seremoni
Gosod Llechen CMC
Bae Caerdydd